# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Gorffennaf 2023 – Cyfrol 8– Rhifyn 10

## Bore coffi ym Maes y Wern

Roedd yn ddiwrnod hyfryd fore Sadwrn 24 Mehefin, pan agorodd John ac Olwen Rowlands eu gardd liwgar a hardd i gynnal bore coffi ar gyfer Hosbis Sant Cyndeyrn. Gwnaed elw o £1010 – rhyfeddol yn wir! Diolch i bawb am eu cefnogaeth.





## Newyddion Prosiect Siop a Swyddfa Bost Llandyrnog

Ar ôl chwe wythnos gyffrous ers lansio ein Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol i godi £40,000 tuag at ein cyllideb i brynu'r hen siop, mi gyrhaeddodd yr 8fed o Fehefin a'r swm anhygoel o £51,025 wedi'i godi drwy garedigrwydd a chefnogaeth 313 o unigolion o fewn y gymdogaeth a'r tu allan iddi.

Hoffai'r cyfarwyddwyr ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

Mae hwn yn gam pwysig ymlaen ar ôl cael grant o £200,000 6 mis yn ôl gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn awr yn disgwyl am benderfyniad ar ein grant diweddaraf i gwblhau'r prosiect.

Gallwch ddilyn ein gwaith ar ein gwefan: [www.llandyrnogshop.com](http://www.llandyrnogshop.com) neu ar Facebook: Llandyrnog Shop.

# Pytiau newyddion y pentre

**Cydymdeimlwn â:**
Richard Davies a'r teulu, Hafod y Bryn, a Bryn Davies a'r teulu, Bryn Ffolt ar farwolaeth eu mam, Gwen, a oedd yn byw yn Rhuthun; Ron Lewis, ar farwolaeth ei wraig, Joan; Gwynfor Jones, Nant Glyd, ar farwolaeth ei wraig, Vera.

**Pen blwydd hapus** hwyr yn 70 oed i Elfed Morris, Nant Glyd.

**Dymuniadau da** i Richard Williams, Plas Bennett yn dilyn ei driniaeth yn yr ysbyty.

**Diolch o galon** gan eglwys St Tyrnog i bawb a ddaeth i'r bore coffi diweddar – codwyd y swm ardderchog o £522.

**Llongyfarchiadau** calonnog i Elwy, Pen y Bryn sydd wedi graddio gyda BVSc MRCVS o Brifysgol Milfeddygaeth Lerpwl, a phob dymuniad da yn dy swydd newydd gyda Milfeddygon Deufor yn y Ffôr, Pwllheli.

Llongyfarchiadau i Caroline Hulme am redeg Marathon Llundain mewn 4 awr a 45 munud. Rhedodd Caroline i gefnogi'i thad sy'n byw gyda dementia. Diolch yn fawr am yr holl gyfraniadau – codwyd £6,650 i Gymdeithas Alheimer. Llawer o gariad gan Jennifer a holl aelodau'r teulu Hulme, Llandyrnog.

**Hwb Cymunedol Llandyrnog**
Yn anffodus, nid oedd Hwb Cymuned Llandyrnog ar agor ym mis Mehefin oherwydd salwch, ond byddwn yno 26ain Gorffennaf yng Nghae Nant o 11am hyd 5pm. Rydym ni'n edrych ymlaen yn eiddgar i'ch croesawu – mae'n braf gweld pawb yn cyfarfod ffrindiau (a gwneud ffrindiau newydd) dros gwpaned o goffi neu de, a chacen. Mae gennym ni gawl a rhôl hefyd os ydych chi eisie pryd go iawn! Rydym ni wedi penderfynu peidio â chodi tâl penodol eleni (ac eithrio hufen iâ Chilly Cow, sydd £2 y twb er mwyn cyflenwi'r gost o'u prynu), ond yn hytrach gofyn am gyfraniad. Teimlwn fod hyn yn gyfle i bawb gael trît bach heb boeni am y gost.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Cystadleuthau Llwyfan**

Llongyfarchiadau i Mason Powell a Tyler Chown a oedd yn aelodau o grŵp '*Ambrose*' o Ysgol Brynhyfryd ddaeth yn 3ydd yng Nghystadleuaeth Ensemble Offerynnol Bl 7, 8 a 9 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri.




Hefyd i Beca Evans (dde) a Gwenan Mars Lloyd ar eu llwyddiannau mewn nifer o gystadleuthau canu.



# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 3ydd | Trefoil Guild 2pm<br>Cyfarfod Pwyllgor Llais Llandyrnog 7pm |
| Mawrth | 4ydd | Sefydliad y Merched 7–9pm |
| Mawrth | 11eg | Clwb Llyfrau 10am |
| Mercher | 12fed | Undeb y Mamau 2pm |
| Mawrth | 18fed | Cyngor Cymuned 7pm |
| Llun | 24ain | Clwb Cwiltio 7pm |
| Mawrth | 25ain | Clwb Llyfrau 10am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Capel y Dyffryn

**Gwasanaethau mis Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| 2il | 10.00 | Sul Gŵyl Trefnant |
| 9fed | 11.00 | Parch. Huw Pritchard |
| 16eg | 11.00 | Parch. Andras Iago |
| 23ain | 9.45 | Cyfarfod Gweddi |
| 30ain | | Dim gwasanaeth |

**Bore coffi at**
**AMBIWLANS ST IOAN**
**Dydd Sadwrn, 29 Gorffennaf**
**Neuadd y Pentre, 10.00–11.30**
**Derbynnir yn ddiolchgar gyfraniad at y stondin cynnyrch cartref**

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:** Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd a chyfieithydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

***Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau i llandyrnognews@gmail.com.***

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 1af | Grŵp crefftau 10am–4pm |
| Llun | 3ydd | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | 4ydd | Mabolgampau'r Ysgol |
| Sadwrn | 8fed | Parti Pen-blwydd 11.30am–1.30pm |
| Sul | 9fed | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | 10fed | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Mawrth | 12fed | Cyfarfod pwyllgor y sioe flodau, 7pm (stafell waelod) |
| Sadwrn | 15fed | Parti Pen-blwydd 10am–4pm |
| Llun | 17eg | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Llun | 24ain | Côr 7.30 – 9.30pm |
| Sadwrn | 29ain | Bore coffi 10am Ambiwlans Sant Ioan |
| Llun | 31ain | Côr 7.30 – 9.30pm |

**I logi'r Neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799570549 neu anfonwch e-bost at ivanbutler897@btinternet.com.**

## Gwasanaethau mis Gorffennaf yn Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 2il | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 9fed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 16eg | 11.15 | Boreol weddi |
| 23ain | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 30ain | | Gwasanaeth yn eglwys Llanefydd |

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606




# Hanesion Hazel

Wel, ryden ni wedi mwynhau Mehefin tesog, ac nawr mae'r haf yn ei anterth. Yn ystod y tywydd poeth, mae dŵr yn hanfodol i'r ardd, ac felly mae arbed a defnyddio dŵr yn effeithiol yn bwysig iawn. Mae casglu dŵr glaw yn lle da i gychwyn – y peth mwya amlwg i'w wneud ydi defnyddio baril glaw neu gasgen ddŵr. Mae gen i nifer o farilau sudd lemwn oedd wedi'u hachub o ddociau Lerpwl yn y 1970au gan fy mrawd oedd yn gweithio yno'r adeg honno. Maen nhw'n dal i fod mewn cyflwr da ac yn casglu dŵr glaw o gwteri'r tŷ gwydr i'w ddefnyddio ar y planhigion tomatos.

I'w hatal nhw rhag cracio, mi ges gyngor i roi rhywbeth ysgafn, fel pêl tenis neu bêl-droed i arnofio ar wyneb y dŵr i gadw'r rhew i ffwrdd. Neu fel arall, medrwch ddefnyddio potel blastig wedi'i llenwi â dŵr halen, sydd hefyd yn atal iâ rhag ffurfio am fod yr halen yn ei achosi iddo rewi'n arafach. Wel, beth bynnag wnes i, mae'r casgenni yma o hyd – 40 mlynedd yn ddiweddarach!

Mae gosod gwter a chasgen ddŵr yn werth y drafferth. Gall unrhyw adeilad gardd â tho, siediau, ystafelloedd gwydr, ac wrth gwrs siediau ieir, gynaeafu dŵr! Felly, pa amser o'r dydd ydi'r gorau i ddyfrio'r ardd mewn tywydd poeth? Yn ôl pob golwg, rhwng 5 a 9 y bore – dim yn gyfleus iawn i mi, felly rydw i'n dyfrio gyda'r nos, pan mae'n oerach a llai o ddŵr yn anweddu.

Wrth gwrs, mae planhigion fel tomatos angen dŵr yn gyson a'r pridd wastad yn llaith. Mae dyfrio anghyson yn achosi'r planhigyn i wywo, i'r dail gyrlio a gwaelod y ffrwyth yn troi'n ddu. Peidiwch â phoeni! Dyma a elwir yn '*blossom end rot'* ac mae gwaelod y ffrwyth yn pydru. Yr esboniad wyddonol y tu ôl i hyn ydi diffyg calsiwm yn y ffrwythau. Mae angen i ddŵr lifo'n gyson drwy'r planhigyn, ac mae dyfrio anghyson yn achosi i'r ffrwythau sydd bellaf o'r gwreiddiau dderbyn llai o galsiwm, sy'n arwain at ddiffyg yn y mwyn a'r ffrwyth i dduo. Rydw i'n tyfu tomatos mewn *grobags*, a rhaid cyfaddef rydw i braidd yn ddi-hid gyda dyfrio rheolaidd, ac ambell waith yn anghofio dyfrio'n ystod y dydd neu fod yn rhy brysur – ddim yn beth da, dwi'n cyfadde! Rydw i hefyd yn cael y ffrwythau gwaelod du yma, ond dydw i ddim yn eu gwastraffu, dim ond torri'r rhan sydd wedi pydru, a bwyta'r gweddill – dal yn flasus!



Mae 15fed Gorffennaf yn ddiwrnod Dygwyl Switan, ac yn ôl llên gwerin, os bydd hi'n glawio ar y diwrnod hwn, bydd hi'n glawio am 40 niwrnod yn olynol, ond os bydd hi'n braf, bydd tywydd braf am 40 niwrnod! Mae'r pennill bach hwn yn dyddio o 1599:

*St Swithun's day, if thou dost rain*
*For forty days it will remain;*
*St Swithun's day, if thou be fair*
*For forty days 'twill rain na mair* (*no more*)

Esgob Caer-wynt oedd Sant Switan o 852 hyd 862, ac fe gafodd ei gladdu, yn ôl ei ddymuniad, yn y fynwent. Ond mae 'na chwedl yn dweud bod storm enbyd wedi digwydd ar ôl i'w gorff gael ei symud i du mewn y Gadeirlan ar 15fed Gorffennaf. Gallai'r ofergoel am y newid mewn patrwm tywydd darddu o gredoau paganaidd o gwmpas canol haf ers talwm, ond gwyddom bellach mai newid meterolegol ym mhatrymau tywydd sydd yr adeg yma, ac mai'r jetlif ydi o!

Ddylai garddwyr a ffermwyr ystyried tyfu cnydau amrywiol sy'n gwrthsefyll sychder? Os bydd yr hafau poeth, sych yn parhau, bydd yn rhaid i'n planhigion addasu, a ni hefyd!

**Hazel Wright**

# Neges gan yr Offeiriad

Mae hi'n Orffennaf, a thymor y Gwyliau ar fin dechrau. Mi fyddwn ni'n mynd ar wyliau fel teulu cyfan, ond hefyd fel cwpwl, gan gael hoe fach o straen bywyd pob dydd. Y llynedd, aethom ni'n dau i wlad Groeg, ac eleni i Gaeredin – amser i droi'r ffôn i ffwrdd a chael llonydd. Ond, fydda i byth yn torri cysylltiad â Duw, er bod fy mhatrwm gweddïo yn wahanol – daw profiadau newydd o ddaioni Duw wrth i ni deithio a chael newid byd.

Ar ein mis mêl 10 mlynedd nôl, cefais fy nharo gan fawredd Sant Paul, a'r holl Eglwysi a sefydlodd wrth rannu'r Newyddion Da. Y llynedd, yng Ngwlad Groeg, prynais ddelw fach o Ioan Fedyddiwr, ac mi fydda i'n edrych arno i gofio ei aberth yn arwain y ffordd i'w gefnder, Iesu Grist. Yng Nghaeredin, dysgais ychydig o iaith Wcráin, rhedeg i fyny at Gadair Arthur, ac ymweld ag Eglwys Gadeiriol Sant Silyn. Tri pheth rhyfeddol oedd yn fy llenwi â pharchedig ofn a syfrdan, ac yn gynsail i'm perthynas i â Duw.

Fy swfenîr i o Gaeredin eleni oedd copi o Gasgliad Lewis a welsom yn yr Amgueddfa Genedlaethol – darnau gwyddbwyll o'r 12fed ganrif a ddarganfuwyd ar Ynys Lewis, yr Hebrides Allanol, yn 1831.



Wrth i Gristnogaeth ledaenu, gwelwyd sawl urdd yn cael ei sefydlu – Urdd Sant Awstin, Sant Dominic, Sant Bened, Sant Ffransis, ac eraill. Roedd mynd ar Bererindod hefyd yn beth cyffredin iawn yn yr Oesoedd Canol.

Profiadau personol ydi'r rhai dw i wedi eu crybwyll. Ond mae mynd ar Bererindod yn daith fwriadol, i le arbennig, er mwyn treulio mwy o amser gyda Duw mewn ffordd ddyfnach ac ystyrlon. Cofiwn am Ŵyl Iago'r Apostol, *Santiago de Compostela* ar Orffennaf 25ain – pererindod sy'n mynd â chi i'r eglwys lle gorwedd y Sant. Mae gennym ni Ffordd y Pererinion yma yng Ngogledd Cymru – y daith sy'n eich arwain i Ynys Enlli, lle gorwedda'r 20,000 o saint. Mae Llanefydd yn rhan o'r daith. Yma yn Ardal Genhadaeth Dinbych, mae Llangwyfan a Llanrhaeadr (ffenest Jesse a'r ffynnon) yn boblogaidd iawn, i enwi dim ond dwy. Mae Duw'n eich galw chi i berthynas sy'n llawn o ryfeddodau ac i fywyd llawn, wrth fynd ar bererindod tuag at fywyd tragwyddol.

**Parch Martin Pritchard**

Rydw i, Non ac Alun, a Darren a Kate yn diolch yn fawr i deulu, ffrindiau a chymdogion a ddaeth i amlosgiad Vera, ddydd Mawrth, 13 Mehefin. Bu llawer o chwerthin a chrio – byddai Vera wedi bod wrth ei bodd.

Hefyd diolch i Peter Morris, Trefnwyr Angladdau, ac i Martin Baldry. Diolch i bob un ohonoch.

*Gwynfor Jones*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Sefydliad y Merched

Croesawyd Margi a Lynne, Y Tŷ Gwyrdd, menter cymunedol Dinbych, i gyfarfod mis Mehefin. Egluron nhw fod y siop yn hen adeilad '*Threads*', gyferbyn â Neuadd y Dref, Dinbych. Maen nhw'n gwerthu pob math o gynhwysion pobi, bwydydd cyflawn, cynnyrch cartref ac anrhegion. Cyflenwir yr holl gynnyrch yn lleol neu gan gyflenwyr moesegol. Medrwch ddod â'ch cynwysyddion eich hunain a phrynu faint fynnoch o'r cynnyrch – bach neu fawr. Mae lle i blant ac i gwsmeriaid eistedd a chael sgwrs dros baned o de neu goffi cymysg. Maen nhw'n croesawu gwirfoddolwyr newydd i'r siop, ac mae'r tîm yn rhedeg clwb garddio cyfeillgar i'r teulu yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr ar ôl ysgol ar Ddydd Iau.



Dyma lun isod o rai o'r eitemau gyflwynodd y Sefydliad yn Sioe Caerwys – cafodd y gath wlanog ganmoliaeth!





Mwynhaodd rhai aelodau ddiwrnod braf hefyd yng Ngerddi Bodnant yn ddiweddar, a'r tresi aur yn eu gogoniant!

Os oes unrhyw un am ddod am dro i gyfarfod o'r Sefydliad, cysylltwch naill ai â Jane Borthwick (Ysgrifennydd) neu unrhyw aelod arall o'r Sefydliad. Bydd croeso cynnes iawn i aelodau o bob oed, a gallwn eich sicrhau y cewch noson llawn hwyl a chroesawgar iawn – dim ond £2 am y raffl!!

Cynhelir y cyfarfodydd yn yr Ystafelloedd Coco, Nos Fawrth cyntaf y mis o 7 – 9pm.

# Trefoil Guild

Mwynhaodd yr aelodau sgwrs gan Glynis Shaw, sy'n gadeirydd Cymdeithas Gerddi Hanesyddol Gogledd Cymru. Soniodd am dirweddau, coed a gerddi hynafol, rhai wedi hen fynd, ond rhai'n cael eu hachub. Sgwrs ddiddorol iawn.

Cawsom baned a chacen wedyn ar ddiwedd y cyfarfod.

Byddwn yn gwneud crefftau yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

**Ruth Griffith**

# Newyddion pêl-droed

Bydd twrnameintiau 7-bob-ochr i blant yn cael eu cynnal yn fuan dan nawdd Cynghrair Pêl-droed yr Haf.
Twrnamaint ysgolion cynradd (6 – 11 oed): **2il Gorffennaf**
Twrnamaint ysgolion uwchradd (Bl 7 – 11): **9fed Gorffennaf**

Hefyd, roedd hi'n braf gweld sefydlu tîm Merched 7 bob ochr. Meddai Jimmy McNally, y rheolwr:
Roedd hi'n fraint ac yn anrhydedd cael rheoli'r grŵp hwn – tîm pêl-droed merched cyntaf Llandyrnog! Diolch i bob un o'r merched am eu hymdrechion yn nhwrnamaint Cynghrair Pêl-droed yr Haf i ferched. Roedd y tîm yn anlwcus i beidio â mynd yn eu blaenau o'r gemau grŵp oherwydd gwahaniaeth goliau, gan ei fod wedi ennill dwy gêm o'r tair.

Diolch hefyd i bentrefwyr Llandyrnog a ddaeth draw i'n cefnogi ni.

Aelodau'r tîm oedd:
Cara Jones, Laura Jones, Chomphunart Janpheng, Ruby Jones, Leah Whitehead, Jordan McNally, Lois Morris, Alisha Whitehead, a Heather Powell.

Alisha Whitehead sgoriodd ein gôl gyntaf erioed. Y sgoriwr arall, o'r un teulu, oedd Leah Whitehead.



***Cynghorydd Cymuned***

Ar hyn o bryd mae gennym le gwag ar gyfer un cynghorydd, a byddem yn croesawu'r cyfle i gyfethol aelod i'n tîm. Os ydych chi'n byw neu'n gweithio o fewn ffiniau'r cyngor cymuned, a diddordeb bod yn rhan allweddol o'r broses gwneud penderfyniadau, siapio dyfodol ein cymuned a dod â syniadau newydd, byddem wrth ein bodd. Am ragor o fanylion am y broses cyfethol a gwaith cynghorydd, cysylltwch â'n clerc Bryn Davies trwy e-bost rbrynd1@gmail.com.



# Ysgol Bryn Clwyd

Diolch yn fawr iawn i'r holl deuluoedd a phawb arall o'r gymuned a gefnogodd ein diwrnod agored a bore coffi Sadwrn 17 Mehefin.  Gyda'ch cymorth chi, gwnaed elw o £400 tuag at yr ysgol!  Diolch i Anwen a Bryn Davies, ac i David Kellett am helpu gyda'r holl drefniadau.  Roedd yn fore hyfryd!



Disgyblion Iau Ysgol Bryn Clwyd (ynghyd ag Ysgol Gellifor) deithiodd ar fws i *DangerPoint* lle dysgon nhw sut i gadw'n ddiogel yn y tŷ, yn yr awyr agored, wrth groesi'r ffordd a hyd yn oed allan ar y môr!



Teithiodd y disgyblion Iau i *Gulliver's World, Warrington* fel rhan o'u prosiect peirianneg. Cwblhaodd y disgyblion weithdai ar sut i gynllunio ac adeiladu ffigar-êt sydd yn y parc – ac wrth gwrs mwynhau reidio arnyn nhw'n ddiweddarach!

# Llan Llanast




Yn ein cyfarfod mis Mehefin, clywsom am wyrth Iesu yn bwydo 5000 o bobl gan ddefnyddio dim ond pum torth a dau bysgodyn a gafodd gan fachgen ifanc. Fe wnaethon ni fasgedi hyfryd, addurno pysgod pren, chwarae gêm dal pysgod, lliwio llawer o luniau o bysgod, a hyd yn oed gwneud ein rholiau bara ein hunain i'w bwyta gyda'n bysedd pysgod a ffa pob!

Bydd ein sesiwn nesaf ddydd Sul, 9 Gorffennaf yn Neuadd y Pentref ac mae croeso i bawb ymuno â ni.


**Prompt Travel**

**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

**Incorporating Vale Private Hire**

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**

**Tacsi a Hurio Preifat**

# Pontydd, parhad

***Pont Glan y Wern***



Mae'r bont hon rhwng Llandyrnog a Dinbych yn mynd dros Afon Clwyd, ac rydw i wedi dreifio drosti filoedd o weithiau. Rydw i hefyd wedi bod o dani ambell waith i bysgota â phlu yn y pwll – peidiwch â deud wrth neb, ond mae 'na samwn a brithyll da yno.

Mae tu isaf y bont yn edrych yn raenus iawn, ond, yn anffodus, collwyd y canllaw a'r garreg gopa. Mae 'na ganllaw isel o goncrid, a rhychau sawl olwyn car (sawl un yn perthyn i mi), a rheiliau gwyrdd wedi dylu.

***Pont Clawdd Ddu***



I ddeud y gwir, er mor ddiddorol ydi'r enw, prin fyddwch chi wedi sylwi bod 'na bont yno o gwbl wrth yrru i lawr o Ben y Mount. Ond mae gan y bont hon swyddogaeth bwysig i reoli llifogydd. O dan y bont, mae 'na bedwar twnel sylweddol sy'n cario'r dŵr o un ddôl i'r llall. Cofiwch fynd i lawr yno pan fydd 'na lifogydd nesa' – mae pŵer y dŵr yn ddigon i godi ofn!

***Pont Parc Canol***



Daw ein taith i ben y tro hwn efo'r bont sy' rhwng Pont Clawdd Ddu a Dinbych – Pont Parc Canol. Dim ond wrth i chi bwyso dros y canllaw garreg go ddiweddar y sylwch chi mai slabiau concrid go ddifflach sydd yno. Pam y diddordeb 'te?

Wel dim byd wir, oni bai bod gynnoch chi ddiddordeb mewn seryddiaeth, ac wedi clywed am y seryddwr enwog o Gymru, Isaac Roberts. Cafodd ei eni a'i fagu yn nhŷ fferm Groes Bach, ond symudodd i Lerpwl yn fachgen ifanc. Fo oedd y cyntaf i dynnu lluniau o nifylau dros gyfnod maith, drwy ddefnyddio ei delesgop. Dangosodd nodweddion hollol newydd o wahanol alaethau. Mi gafodd y tŷ fferm ei ddymchwel yn y 1970au cynnar a phrynwyd y cerrig gan Gyngor Sir Ddinbych i adeiladu'r bont yma. Mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd!

I ddeud y gwir, ryden ni'n hynod ffodus bod llwybr cyhoeddus yn mynd yr holl ffordd o Bont Telpyn i Bont Glan y Wern. Ewch am dro yno rywbryd, a phicnic efo chi – mi gewch chi olygfa odidog o Ddyffryn Clodfawr Clwyd!

**Bryn Davies**

# Rysáit

## Bisgedi brau rhwydd

**Cynhwysion:**
170g blawd plaen, ac ychydig yn ychwanegol i'w daenu ar yr hambwrdd pobi
170g menyn, ar dymheredd ystafell
55g siwgr eisin
55g blawd corn

**Dull:**
Cynheswch y popty i 190°C a thaenwch flawd plaen ar hambwrdd pobi mawr.
Cymysgwch y cynhwysion ynghyd â'ch dwylo neu gyda pheiriant cymysgu ar y gosodiad isaf, nes bydd toes meddwl yn ffurfio.
Rholiwch y toes allan i drwch o ryw 1cm, a thorrwch o'n gylchoedd gyda thorrwr sgoniau.
Pobwch nhw am 10–12 munud nes eu bod nhw'n gadarn wrth eu cyffwrdd, ond o liw golau o hyd.
Defnyddiwch nhw oddi ar yr hambwrdd gyda sleis a gadewch nhw i oeri ar resel oeri.

**Ruth Griffith**

# Taith dractorau

Efallai wir i chi sylwi fod yna tua 90 o dractorau wedi dod drwy Llandyrnog fel neidr swnllyd, hir fore Sul, 4 Mehefin. Criw Llandyrnog oedd yn bennaf gyfrifol am hyn a phleser mawr yw cyhoeddi bod y cyfanswm a godwyd tuag at Hosbis Sant Cyndeyrn dros £3000. Diolch o galon i chi am eich haelioni a'ch amynedd. Roeddem ar y ffordd i Dremeirchion i gael hufen iâ, wedyn yn ôl dros y mynydd i Llangwyfan. Roedd pawb wedi dotio at harddwch y Dyffryn – dan ni'n gwybod ei fod o'n hardd ond peidiwch â dweud wrth neb!

**Bryn Davies**




# Diwrnod y lluoedd arfog



Ar Fehefin 24ain, aeth Gwen Butler i gynrychioli Cyngor Cymuned Llandyrnog ar ddiwrnod codi'r baneri gan Gyngor Sir Ddinbych, i goffáu'r Lluoedd Arfog.

hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorydd Cymuned

Rydw i'n meddwl y byd o blwyf Llandyrnog, gan fy mod wedi fy magu yn Llangwyfan, ac yn ddiweddarach ym mhentref Llandyrnog. Rydw i'n rhugl yn y Gymraeg. Mi gefais fy addysg yn ysgol y pentref, ac wedyn yn Ysgol Caledfryn, Dinbych. Bûm yn y Coleg yn Wrecsam a chymhwyso fel trydanwr. Roeddwn yn gweithio'n lleol, ac, ymhen amser, mi sefydlais i fy nghwmni trydanol fy hun.

Dechreuodd fy niddordeb ym materion y Cyngor gan fod fy nhad yn glerc am flynyddoedd, ac wedi rhoi o'i amser a'i wybodaeth i wasanaethu'r gymuned leol.

Rwyf wedi bod yn aelod o'r Cyngor Cymuned ers 1974, a chefais fy ethol yn aelod o Gyngor Sir Ddinbych o 2004 hyd at 2012. Llwyddais i gael y maen i'r wal ar sawl mater, er lles ein cymuned.

Rydw i'n aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Bryn Clwyd, Pwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref, Eisteddfod Llandyrnog, Y Sioe Flodau ac yn flaenor yng Nghapel y Dyffryn.

Rydw i'n annog unrhyw un â diddordeb i ymuno â'r Cyngor Cymuned, er mwyn i chi fedru lleisio eich barn chi a safbwyntiau preswylwyr mewn materion fydd o les i'r gymdeithas leol.

**Gwilym C. Evans**

# Sioe Geffylau Llandyrnog

Cynhaliwyd Sioe Geffylau Llandyrnog ddydd Sul, 25 Mehefin. Roedd y tywydd yn braf a nifer fawr yn bresennol. Llwyddwyd i godi £817 tuag at elusennau lleol.

Dywedodd Iona Pierce, Ysgrifennydd: "Mae'r sioe hon wedi bod yn mynd am flynyddoedd lawer. Mae gennyf rai tlysau sy'n dyddio'n ôl i'r 60au. Rydw i wedi bod yn ysgrifennydd am 25 mlynedd, a hoffwn drosglwyddo rhedeg y sioe i bwyllgor newydd. Yn wir, does dim pwyllgor ar hyn o bryd, ac rydw i wedi bod yn cynnal y sioe ar fy mhen fy hun ers 6/7 mlynedd.

Os oes unrhyw un â diddordeb i gadw'r sioe i fynd, gadewch i mi wybod os gwelwch yn dda. Byddai'n ddelfrydol dod o hyd i Ysgrifennydd a Thrysorydd, a phobl eraill sy'n barod i fod yng ngofal adran arbennig o'r sioe (*SJ, In Hand, Ridden, WHP* ayb). Byddwn yn fwy na pharod i helpu mewn unrhyw ffordd, ond teimlaf fod angen syniadau newydd erbyn hyn."







# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mehefin Cyngor Cymuned Llandyrnog

Nid oedd y swyddog heddlu cymunedol yn bresennol, ond anfonodd adroddiad – roedd yn delio â digwyddiad ynglŷn â chi peryglus ym Maes Clwyd. Bydd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n mynychu'r Tuesday Club i roi cyngor ar ddiogelwch yn y cartref i'r aelodau.

Trafodwyd cael gatiau i Gae Nant unwaith eto, a phenderfynwyd y byddai cau'r gatiau yn rheoli perygl i gerddwyr, ond byddai'n cynyddu'n sylweddol y nifer o geir fyddai'n parcio ar y ffordd. Byddai hynny yn y pen draw'n achosi mwy o berygl.

Cafwyd adroddiad bod cyfranddaliadau'r siop gymunedol wedi gwerthu'n dda – tua £50,000 erbyn hyn, a bod y bwrdd yn aros am gadarnhad ynglŷn â grant ychwanegol.

Cynrychiolodd y Cynghorydd Butler y cyngor cymuned mewn cyfarfod AHNE, lle cafwyd cyflwyniad diddorol iawn ar y prosiect i warchod poblogaeth y gylfinir. Ers 1980 mae wedi gostwng 80% oherwydd colli tir bridio cefn gwlad naturiol. Fodd bynnag, mae Ceidwaid AHNE yn cydweithio â thirfeddianwyr yn ardal Llandegla/Bryneglwys i warchod yr ardaloedd hyn, ac efallai yn y dyfodol y bydd angen symud yr wyau, eu deori a rhyddhau'r adar yn ddiweddarach. Ar nodyn mwy cadarnhaol, gellir clywed adar prin fel mwyalchen y mynydd a gwalch y nos yn ardaloedd Coedwig Llangwyfan a Phen y Cloddiau.

Cynrychiolodd y Cynghorydd Butler y cyngor cymuned mewn Cyfarfod Blynyddol Ffrindiau Ysbyty Rhuthun. Defnyddiwyd arian y flwyddyn hon i brynu offer clinigol, a hefyd tuag at adnewyddu'r dderbynfa a'r bar te, sydd nawr â pheiriant yn cynnig coffi ffres a siocled poeth 24/7. Am £1.50, mae'n werth yr arian. Adroddwyd bod yr holl welyau (23) yn llawn.

Roedd y Cynghorwyr A. Evans ac E. Morris wedi cynrychioli'r cyngor cymuned mewn cyfarfod cynllun datblygu lleol, oedd yn gyflwyniad anffurfiol cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Bydd hyn yn golygu y bydd Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ei le erbyn 2025 fydd yn dangos pa safleoedd sydd wedi eu clustnodi ar gyfer datblygu yn Sir Ddinbych. Mae nifer o safleoedd wedi eu nodi yn ein hardal ni.

Trafodwyd dau gais cynllunio:

- Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer storio bwydydd/offer yn cynnwys corlannau defaid, dwy stabl a chreu llwybr mynediad a gwaith cysylltiol – Cwm Hyfryd
- Newid defnydd o stablau i ganolfan gofal cŵn yn ystod y dydd yn Wern Llandyrnog – cais diwygiedig.

**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

*Argraffwyd gan Mike Neuman, Denbigh www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*